

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Crynodeb o'r pwerau deddfu a
drosglwyddwyd i'r Cynulliad
Cenedlaethol ers 2007

Chwefror 2011

Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r 60 o Aelodau'r Cynulliad a'u staff.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copiau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: MembersLibrary@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrifol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Gorchmynion Arfaethedig Llywodraeth.....	4
Gorchmynion Arfaethedig Aelodau 'r Cynulliad.....	18
Pwerau fframwaith.....	20
Gwybodaeth bellach.....	33

Cyflwyniad

Ar hyn o bryd, o dan Rhan 3 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*¹ (“Deddf 2006”), caiff y Cynulliad Cenedlaethol basio deddfwriaeth cynradd, a elwir yn “Fesurau Cynulliad”, dim ond os y trosglwyddwyd y pwerau deddfu sydd eu hangen i wneud hynny iddo, drwy “Faterion” a gaiff eu cynnwys, gyda chaniatâd Senedd y DU, yn 20 “Maes” yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006.²

Ar hyn o bryd, o dan Ddeddf 2006, caiff y Cynulliad Cenedlaethol ychwanegu at ei bwerau deddfu un achos ar y tro drwy ddau ddull gwahanol a amlinellir isod:

Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol

Ceisiadau i drosglwyddo pwerau deddfu penodol o Senedd y DU i'r Cynulliad Cenedlaethol yw Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol (“Gorchmynion”). Gall Gorchmynion gael eu cynnig gan Lywodraeth Cymru, un o bwyllgorau'r Cynulliad neu Aelod Cynulliad unigol. Mae pob Gorchmyn yn cynnwys Mater, neu gyfres o Faterion, a fydd, os cânt eu pasio, yn diwygio Atodlen 5 i Ddeddf 2006 ac yn ehangu pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol yn y meysydd a nodir gan y Mater neu'r Materion perthnasol.

Ar ôl i Orchmyn gael ei gyflwyno, bydd yn destun gwaith craffu cyn deddfu gan un o bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol. Ers 2007, yr hyn sy'n arferol yw bod y Pwyllgor Materion Cymreig yn craffu ar Orchmynion yn Nhŷ'r Cyffredin a bod y Pwyllgor Cyfansoddiadol yn craffu arnynt yn Nhŷ'r Arglwyddi.³

¹ **Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32)**

² Ceir trosolwg o'r termau a ddefnyddir yn y bwletin hwn yn **Hysbysiad Hwylus GYA: Geirfa**.

³ Yn San Steffan, mae pwyllgorau unigol yn penderfynu ar y trefniadau ar gyfer craffu ar Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol.

Yn dilyn cyhoeddi adroddiadau'r pwyllgorau, caiff Orchymyn drafft ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol gan Weinidogion Cymru lle bydd yn ofynnol i'r Gorchymyn gael ei gymeradwyo gan fwyafrif o Aelodau'r Cynulliad. Bydd Ysrifennydd Gwladol Cymru yn gosod yr un Gorchymyn drafft gerbron Senedd y DU, lle bydd yn ofynnol iddo gael ei gymeradwyo gan ddau Dŷ'r Senedd. Os caiff ei basio, bydd y Gorchymyn yn dod yn gyfraith ar ôl cael Cymeradwyaeth Frenhinol.

Pwerau fframwaith a gaiff eu cynnwys yn Neddfau Senedd y DU

Mae pwerau fframwaith a gaiff eu cynnwys yn Neddfau Senedd y DU yn diwygio Atodlen 5 yn yr un modd â Gorchymynion. Drwy'r dull hwn, caiff Materion eu cynnwys yn y Meysydd perthnasol o Atodlen 5 drwy gymalau penodol mewn Deddfau, ar ôl iddynt gael eu pasio gan Senedd y DU a chael Cymeradwyaeth Frenhinol.

Er y craffir ar bob Mesur Seneddol yn fanwl yn nau Dŷ Senedd y DU, nid oes gan y Cynulliad Cenedlaethol rôl ffurfiol yn y broses o wneud cais am y pwerau hyn neu o graffu ar y pwerau a drosglwyddir iddo drwy'r broses hon.

Ers 2007, mae **84 o Faterion** wedi cael eu cynnwys yn **14 o'r 20 o Feysydd a restrir yn Atodlen 5** o Ddeddf 2006 drwy Orchymynion a chymalau mewn Deddfau Senedd y DU. Y chwech Maes nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion yw:

- Datblygu Economaidd (Maes 4);
- gwasanaethau tân ac achub a hybu diogelwch rhag tân (Maes 7);
- Bwyd (Maes 8);
- Gweinyddiaeth gyhoeddus (Maes 14);
- Twristiaeth (Maes 17); a
- Dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd (Maes 19).

Cyflwynwyd Gorchymyn yn **ceisio pwerau deddfu mewn perthynas â chydsyniad ar gyfer rhoi organau** gan Lywodraeth Cymru ar 10 Ionawr 2011 ac fe'i cyfeiriwyd at y Cynulliad Cenedlaethol a Senedd y DU i fod yn destun gwaith craffu cyn deddfu.

Mae Gorchymyn ychwanegol a gynigiwyd gan Bwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad Cenedlaethol **ynghylch datblygu a chynnal rhwydweithiau o lwybrau ar gyfer cerddwyr a beicwyr** yn destun trafodaethau parhaus rhwng Llywodraeth Cymru ac adrannau Whitehall.

Cynigir pwerau deddfu pellach ar gyfer Cynulliad Cymru yn y **Mesur Seneddol ynghylch Cyfrifoldebau dros y Gyllideb ac Archwilio Cenedlaethol** a'r **Mesur Seneddol ynghylch Lleoleiddio**. Mae Senedd y DU yn craffu arnynt ar hyn o bryd.

Gan bod y papur hwn yn ymwneud â phwerau sydd eisioes wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol, nid yw'n cynnwys gwybodaeth am y pwerau deddfwriaethol arfaethedig a nodwyd uchod.

Diben y papur hwn yw darparu crynodeb o'r pwerau deddfu a drosglwyddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ers 2007 drwy Faterion a fewnosodwyd yn y Meysydd yn Atodlen 5 drwy Orchmynion a Deddfau Senedd y DU.

Gorchmynion Arfaethedig Llywodraeth

Ers mis Mehefin 2007, mae'r Cynulliad Cenedlaethol a Senedd y DU wedi pasio 15 o Orchmynion Arfaethedig Llywodraeth Cymru. Isod, ceir manylion ynghylch pob Gorchymyn, gan gynnwys nifer a natur y Materion a fewnosodwyd a gwybodaeth am unrhyw Fesurau dilynol a gaiff eu cyflwyno sy'n gysylltiedig â'r Mesurau hynny.

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg a Hyfforddiant) 2008

- **Fe'i cyflwynwyd ar:**
11 Mehefin 2007
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
9 Ebrill 2008
- **Mater a fewnosodwyd:**
5.7 (Addysg ac Hyfforddiant) (mae'r Gorchymyn hefyd yn diwygio Mater 5.10)
- **Mesurau Cynulliad sy'n seiliedig ar o leiaf un o'r Materion hyn:**
Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (ynghyd â'r pwerau deddfu a drosglwyddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol gan *Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trosi Pwerau Fframwaith) 2007* a *Deddf Addysg Bellach a Hyfforddiant 2007*)

Mae'r Gorchymyn hwn yn ehangu pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud cyfreithiau mewn perthynas ag addysg ac hyfforddiant i bersonau sy'n ei chael yn anos dysgu na mwyafrif y

personau sydd yr un oed â'r personau hynny, a phersonau â nam corfforol neu meddyliol, neu sydd wedi cael nam o'r fath, neu gyflwr iechyd sy'n gwaethygu'n raddol (fel canser, sglerosis ymledol neu haint HIV) yn ystod cyfnod pan nad yw'r cyflwr yn achosi nam corfforol neu meddyliol.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn diwygio Mater 5.10 (a fewnosodwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trosi Pwerau Fframwaith) 2007) i ymdrin â theithio sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant ar gyfer personau sy'n cael addysg feithrin nad ydynt wedi'u cynnwys o dan addysg gynradd (plant o dan dwy flwydd oed).

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2008

- **Fe'i cyflwynwyd ar:**
6 Mehefin 2007
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
9 Gorffennaf 2008
- **Mater a fewnosodwyd:**
15.1 (Lles Cymdeithasol)
- **Mesurau Cynulliad sy'n seiliedig ar y Mater hwn:**
Mesur Codi Ffioedd am Ofal Cymdeithasol (Cymru) 2010

Mae'r Gorchymyn hwn yn ehangu pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud cyfreithiau mewn perthynas â chodi ffioedd am ofal cymdeithasol amhreswyl (a elwir hefyd yn ofal cartref).

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Erail) 2008

- **Fe'i cyflwynwyd ar:**
6 Mehefin 2007
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
10 Rhagfyr 2008
- **Materion a fewnosodwyd:**
5.18 (Addysg a Hyfforddiant), 15.2, 15.3, 15.4, 15.5, 15.6, 15.7, 15.8 (Lles Cymdeithasol) a 16.1 (Chwaraeon a Hamdden)
- **Mesurau Cynulliad sy'n seiliedig ar o leiaf un o'r Materion hyn:**
Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (ynghyd â'r pwerau deddfu a drosglwyddwyd gan *Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trosi Pwerau Fframwaith) 2007*)
Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Phobl Ifanc (Cymru)

Mae'r Gorchymyn hwn yn ehangu pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu mewn perthynas â'r meysydd a ganlyn sy'n gysylltiedig â phlant sy'n agored i niwed a thlodi plant:

- Cyfleusterau ar gyfer hyfforddiant cymdeithasol neu gorfforol a gweithgareddau addysg i blant neu bobl ifanc;
- Swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus mewn perthynas â diogelu plant rhag niwed ac esgeulustod, diogelu a hyrwyddo lles plant sy'n agored i niwed a lleihau anghydraddoldebau o ran lles rhwng plant a phobl ifanc.
- Gwasanaethau mabwysiadu a gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig.

- Maethu;
- Gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer plant, personau sy'n gofalu am blant, personau ifanc a phersonau y gofalyd amdanynt o'r blaen;
- Cydweithredu a threfniadau i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant neu bersonau ifanc;
- Cynllunio gan awdurdodau lleol ar gyfer cyflawni'u swyddogaethau sy'n gysylltiedig â lles plant neu bersonau ifanc;
- Parhau, diddymu neu greu swydd neu gorff y mae a wnelo â diogelu a hyrwyddo llesiant plant neu bersonau ifanc; a
- Darparu cyfleusterau a gweithgareddau hamdden i blant neu bersonau ifanc.

Gorchymyn (Cymhwysedd Deddfwriaethol) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig) 2009

- **Fe'i cyflwynwyd ar:**
15 Gorffennaf 2008
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
8 Gorffennaf 2009
- **Materion a fewnosodwyd:**
1.1 (amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygu gwledig)
- **Mesurau Cynulliad sy'n seiliedig ar y Mater hwn:**
Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010

Mae'r Gorchymyn hwn yn ehangu pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud cyfreithiau mewn perthynas â diwydiant cig coch Cymru.

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009

- **Fe'i cyflwynwyd ar:**
8 Rhagfyr 2008
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
17 Tachwedd 2009
- **Materion a fewnosodwyd:**
15.9 (Lles Cymdeithasol)
- **Mesurau Cynulliad sy'n seiliedig ar y Mater hwn:**
Mesur Stratagaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010

Mae'r Gorchymyn hwn yn ehangu pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud cyfreithiau mewn perthynas â chefnogi'r ddarpariaeth o ofal gan ofalwyr a hyrwyddo lles gofalwyr.

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Eithriadau i Faterion) 2009

- **Fe'i cyflwynwyd ar:**
16 Mehefin 2009
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
17 Tachwedd 2009 (fe'i ystyriwyd ar y cyd â *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009*)
- **Materion a fewnosodwyd:**
Dim (roedd y Gorchymyn hwn yn mewnosod eithriadau, yn hytrach na Materion, mewn Meysydd penodedig yn Atodlen 5 o Ddeddf 2006)

Yn dilyn ystyriaeth o'r Gorchymyn arfaethedig gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 yn y Cynulliad Cenedlaethol, y Pwyllgor Materion Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin a'r Pwyllgor Cyfansoddiadol yn Nhŷ'r Arglwyddi, rhannodd Llywodraeth Cymru y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Lles Cymdeithasol gwreiddiol yn ddau drwy osod y Gorchymyn hwn a oedd yn cynnwys eithriadau yn unig. O ganlyniad, mae'r Gorchymyn hwn yn cyfyngu ar bwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol mewn rhai Meysydd.

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Amgylchedd) 2009

- **Fe'i cyflwynwyd ar:**
6 Mehefin 2007 (cyflwynwyd fersiwn diwygiedig ar 19 Mai 2009)
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
10 Chwefror 2010
- **Materion a fewnosodwyd:**
6.1, 6.2, 6.3 and 6.4 (Amgylchedd)
- **Mesurau Cynulliad sy'n seiliedig ar o leiaf un o'r Materion hyn:**
Mesur Gwastraff (Cymru) 2010

Mae'r Gorchymyn hwn yn ehangu pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud cyfreithiau mewn perthynas ag:

- Atal, lleihau, casglu, rheoli, trin neu waredu gwastraff;
- Gwaredu gwastraff yn y môr pan fo'r gwastraff wedi ei gasglu, ei reoli neu ei drin ar y tir;
- Diogelu neu gwella'r amgylchedd o ran llygredd; a
- Diogelu neu gwella'r amgylchedd o ran niwsansau.⁴

⁴ Mae'r holl bwerau deddfu a gynhwysir yn y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i nifer o gyfyngiadau sy'n ymddangos o dan Faterion 6.1, 6.2, 6.3 a 6.4 yng **Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (yr Amgylchedd) 2009**.

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2010

- **Fe'i cyflwynwyd ar:**
2 Chwefror 2009
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
10 Chwefror 2010
- **Materion a fewnosodwyd:**
20.1 a 20.2 (Yr Iaith Gymraeg)
- **Mesurau Cynulliad sy'n seiliedig ar o leiaf un o'r Materion hyn:**
Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011

Mae'r Gorchymyn hwn yn ehangu pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud cyfreithiau mewn perthynas â:

- Hybu a hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg; a thrin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal⁵; a
- Darpariaeth ynghylch neu mewn perthynas â rhyddid personau sydd am ddefnyddio'r Gymraeg i wneud hynny gyda'i gilydd (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ar hyn).

⁵ Mae'r pŵer deddfu hwn yn ddarosgynghedig i nifer o gyfyngiadau a gaiff eu cynnwys fel eithriadau i Fater 20.1 o dan Erthygl 3 o **Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (yr Iaith Gymraeg) 2009**.

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Diwylliant a Meysydd Erail) 2010

- **Fe'i cyflwynwyd ar:**
15 Gorffennaf 2009
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
12 Ebrill 2010
- **Materion a fewnosodwyd:**
2.1 (Henebion ac Adeiladau Hanesyddol), 3.1 (Diwylliant) a 16.4 (Chwaraeon a Hamdden)
- **Mesurau Cynulliad sy'n seiliedig ar o leiaf un o'r Materion hyn:**
Dim

Mae'r Gorchymyn hwn yn ehangu pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud cyfreithiau mewn perthynas â swyddogaethau awdurdodau lleol yn y gwaith o gefnogi, gwella a hyrwyddo:

- Olion archeolegol, henebion, adeiladau a lleoedd sydd o ddiddordeb hanesyddol neu archeolegol, a llongddrylliadau hanesyddol;
- Celf a chrefft, amgueddfeydd ac orielau, llyfrgelloedd, archifdai a chofnodion hanesyddol, a gweithgareddau a phrosiectau diwylliannol; a
- Chwaraeon a gweithgareddau hamdden.



Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Llywodraeth Leol) 2010

- **Fe'i cyflwynwyd ar:**
13 Gorffennaf 2009
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
12 Ebrill 2010
- **Materion a fewnosodwyd:**
12.8, 12.9, 12.10, 12.11, 12.12, 12.13, 12.14, 12.15, 12.16 a
12.17 (Llywodraeth Leol)
- **Mesurau Cynulliad sy'n seiliedig ar o leiaf un o'r Materion hyn:**
Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)
(ynghyd â pwerau deddfu a drosglwyddwyd gan *Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007*)

Mae'r Gorchymyn hwn yn ehangu pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud cyfreithiau mewn perthynas â:

- Ardaloedd cymunedau a chyfansoddiad, strwythur, a gweithdrefnau sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cymunedau;
- Trefniadau etholiadol ar gyfer sefydliadau llywodraeth leol etholedig ar gyfer cymunedau.
- Rhoi pwerau i sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cymunedau;
- Weinidogion Cymru i gyllido llywodraeth leol ar gyfer cymunedau;
- Y berthynas rhwng gwahanol gymunedau a'u sefydliadau llywodraeth leol;

- Cynlluniau i achredu ansawdd mewn llywodraeth leol ar gyfer cymunedau; a
- Cyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol ar gyfer cymunedau (ar wahân i etholiadau).

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg) 2010

- **Fe'i cyflwynwyd ar:**
14 Gorffennaf 2009
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
12 Ebrill 2010
- **Materion a fewnosodwyd:**
5.2A, 5.2B a 5.2C (Addysg ac Hyfforddiant)
- **Mesurau Cynulliad sy'n seiliedig ar o leiaf un o'r Materion hyn:**
Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru)

Mae'r Gorchymyn hwn yn ehangu pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud cyfreithiau mewn perthynas â:

- Rhedeg a llywodraethu ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol;
- Sicrhau bod cydlafurio rhwng personau neu gyrrff sydd â swyddogaethau sy'n ymwneud ag ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol; a
- Sefydlu cyrff i gyflawni gweithgareddau sy'n ymwneud ag addysg ac hyfforddiant, ac ymhel â'r cyrff hynny, ac arfer swyddogaethau addysgol ar ran awdurdodau lleol.

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trafnidiaeth) 2010

- **Fe'i cyflwynwyd ar:**
7 Rhagfyr 2009
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
12 Ebrill 2010
- **Materion a fewnosodwyd:**
10.2 (Priffyrdd a Thrafnidiaeth)
- **Mesurau Cynulliad sy'n seiliedig ar y Mater hwn:**
Mesur arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Drafnidiaeth i Ddysgwyr (Cymru) (ynghyd â'r pwerau deddfu a drosglwyddwyd gan *Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trosi Pwerau Fframwaith) 2007*)

Mae'r Gorchymyn hwn yn ehangu pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud cyfreithiau mewn perthynas â theithio rhatach ar wasanaethau bws a gwasanaethau Cymreig a ddarperir o dan gytundeb masnachfrait y mae Gweinidogion Cymru yn bartïon iddo.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn ehangu pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol drwy ddiwygio'r eithriadau ym Mater 5.10 (Addysg a Hyfforddiant) a fewnosodwyd yn wreiddiol gan *Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trosi Pwerau Fframwaith) 2007*.

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010

- **Fe'i cyflwynwyd ar:**
14 Gorffennaf 2009
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
21 Gorffennaf 2010
- **Materion a fewnosodwyd:**
11.2, 11.3, 11.4, 11.5, 11.6, 11.7, 11.8 (Tai) a 12.18 (Llywodraeth Leol)
- **Mesurau Cynulliad sy'n seiliedig ar o leiaf un o'r Materion hyn:**
Mesur arfaethedig ynghylch Tai (Cymru)

Mae'r Gorchymyn hwn yn ehangu pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud cyfreithiau mewn perthynas â:

- Darparwyr tai cymdeithasol;
- Cyrff tai cymdeithasol perthnasol;
- Deiliadaeth tai cymdeithasol ar rent a threfniadau eraill y darperir tai cymdeithasol oddi tanynt;
- Gwarediadau tai cymdeithasol;
- Darparu cyngor a chymorth heb fod yn gymorth ariannol i unigolion mewn cysylltiad â bod unigolion yn cael tai, ac mewn cysylltiad â bod unigolion yn byw mewn tai;
- Darparu gan awdurdodau lleol safleoedd carafannau i'w defnyddio gan sipsiwn a theithwyr; a
- Digartrefedd.

Gorchmynion Arfaethedig Aelodau ‘r Cynulliad

Mae Rheolau Sefydlog 22.38 i 22.45 a 22.46 i 22.54⁶ yn caniatáu i Aelodau Cynulliad unigol a phwyllgorau'r Cynulliad gynnig Gorchmynion. Hyd yma, mae dau Fesur Arfaethedig Aelod wedi mewnosod Materion yn Atodlen 5 o Ddeddf 2006 ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol a Senedd y DU gymeradwyo hynny.

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd a Lles Cymdeithasol) 2010

- **Fe'i cyflwynwyd ar:**
18 Chwefror 2008
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
10 Chwefror 2010
- **Materion a fewnosodwyd:**
9.2 (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd) a 15.10 (Lles Cymdeithasol)
- **Mesurau Cynulliad sy'n seiliedig ar o leiaf un o'r Materion hyn: Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010**

Mae'r Gorchymyn hwn, a gyflwynwyd gan **Jonathan Morgan AC**, yn ehangu pwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu mewn perthynas â:

- Asesu iechyd meddwl a thrin anhwylderau meddyliol; a
- Gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl.

⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mai 2010* [fel ar 19 Ionawr 2011]

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai) (Diogelwch Tân) 2010

- **Fe'i cyflwynwyd ar:**
20 Chwefror 2008
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
12 Ebrill 2010
- **Materion a fewnosodwyd:**
11.1 (Tai)
- **Mesurau Cynulliad sy'n seiliedig ar y Mater hwn:**
**Mesur Arfaethedig ynghylch Diogelwch Tân Domestig
(Cymru)**

Mae'r Gorchymyn hwn, a gyflwynwyd gan **Ann Jones AC**, yn ehangu pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud cyfreithiau mewn perthynas â darparu systemau llethu tân mewn mangreoedd preswyl newydd.

Pwerau fframwaith

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd wedi cael pwerau deddfu sylweddol drwy Gymalau a gynhwysir mewn Deddfau Senedd y DU. Ers 2007, mae **37 o Faterion** wedi'u mewnosod yn Atodlen 5 o Ddeddf 2006 drwy'r dull hwn. Ceir crynodeb o'r Deddfau perthnasol a gwybodaeth am y pwerau deddfu a drosglwyddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ganddynt isod.

Deddf Llywodraeth Cymru 2006

- **Fe'i cyflwynwyd i Senedd y DU ar:**
1 Mawrth 2006
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
25 Gorffennaf 2006 (Fodd bynnag, ni ddaeth y Ddeddf i rym tan yn syth ar ôl Etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2007)
- **Materion a fewnosodwyd:**
13.1, 13.2, 13.3, 13.4, 13.5 a 13.6 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru)
- **Mesurau Cynulliad sy'n seiliedig ar o leiaf un o'r Materion hyn:**
Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009

Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010

Roedd Materion sy'n ymwneud â phrosesau a swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol eisoes wedi'u cynnwys ym Maes 13 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) o Atodlen 5 pan ddaeth y Ddeddf i rym.

Roedd y Materion hyn yn darparu pwerau deddfu i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â:

- Ymchwilio i gwynion am ymddygiad Aelodau'r Cynulliad;
- Arfer swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol (gan gynnwys bwerau dos eiddo, staff a gwasanaethau);
- Talu cyflogau, lwfansau, pensiynau ac arian rhodd i Aelodau'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru (gan gynnwys Dirprwy Weinidogion a'r Cwnsler Cyffredinol);
- Creu a chynnal cofrestr o fuddiannau Aelodau'r Cynulliad a'r Cwnsler Cyffredinol; a
- Pwerau mewn cysylltiad â'r gweithrefnau ar gyfer ymdrin â Mesurau Cynulliad preifat arfaethedig.

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trosi Pwerau Fframwaith) 2007

- **Fe'i gwnaed ar:**
21 Mawrth 2007
- **Fe'i gosodwyd gerbron Senedd y DU ar:**
28 Mawrth 2007
- **Materion a fewnosodwyd:**
5.1, 5.2, 5.3, 5.4, 5.5, 5.6, 5.7, 5.8, 5.9, 5.10 (Addysg ac Hyfforddiant) a 9.1 (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd)
- **Mesurau Cynulliad sy'n seiliedig ar o leiaf un o'r Materion hyn:**
Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008

Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009

Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (ynghyd â'r pwerau deddfu a drosglwyddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol gan *Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddiant 2007*)

Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009, Mesur Plant a Theuluoedd 2010 (ynghyd â'r cymhwysedd deddfwriaethol a drosglwyddwyd gan *Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008*)

Mesur Arfaethedig ynghylch Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) (ynghyd â'r cymhwysedd deddfwriaethol a drosglwyddwyd gan *Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trafnidiaeth) 2010*)

Mae'r Gorchymyn hwn yn trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol y pwerau deddfu a nodir mewn cymalau a gynhwysir yn *Neddf Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG 2006*⁷ a'r *Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006*.⁸ Gan fod y Ddeddfau hyn wedi dod i rym cyn gweithredu Deddf 2006, roedd angen y Gorchymyn hwn fel darpariaeth ôl-ddilynol i fewnosod Materion yn uniongyrchol i mewn i'r Meysydd yn Atodlen 5 ar ôl cychwyn Deddf 2006.

Mae'r Materion a gynhwysir yn y Gorchymyn hwn yn darparu pwerau deddfu i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â:

- Categoriâu o ysgolion;
- Sefydlu a chau ysgolion;
- Derbyn disgyblion;
- Y cwricwlwm mewn ysgolion;
- Mynychu'r ysgol, ymddygiad disgyblion, disgyblaeth ysgol a gwahardd disgyblion o'r ysgol;
- Darparu addysg ar gyfer personau mewn oedran ysgol gorfodol a waharddwyd o ysgolion neu na fyddent am unrhyw reswm arall yn cael addysg addas fel arall;
- Yr hawl i gael addysg gynradd, uwchradd a phellach ac i gael hyfforddiant;
- Darparu gwasanaethau a fwriedir i annog, galluogi neu gynorthwyo pobl i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant, i gymryd mantais o gyfleoedd i gael cyflogaeth, neu i gymryd rhan yn effeithiol ym mywyd eu cymuned;
- Bwyd a diod a ddarperir ym mangre'r ysgol;

⁷ **Deddf Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG 2006 (c.44)**

⁸ **Deddf Addysg ac Archwiliadau 2006 (c.40)**

- Teithio gan bersonau sy'n cael addysg gynradd, uwchradd neu hyfforddiant i fannau eraill ac o fannau eraill lle y maent yn derbyn addysg neu hyfforddiant; a
- Darparu iawn heb droi at achos sifil o ran y gwasanaethau a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

Deddf Addysg Bellach a Hyfforddiant 2007

- **Fe'i cyflwynwyd ar:**
20 Tachwedd 2006
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
23 Hydref 2007
- **Materion a fewnosodwyd:**
5.11, 5.12, 5.13, 5.14, 5.15 a 5.16 (Addysg a Hyfforddiant)
- **Mesurau Cynulliad sy'n seiliedig ar o leiaf un o'r Materion hyn:**
Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2007 (ynghyd â'r pwerau deddfu a drosglwyddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol gan *Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trosi Pwerau Fframwaith) 2007*)

Mae'r Materion a gynhwysir yn y Ddeddf hon yn darparu pwerau deddfu i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â:

- Cyfleusterau ar gyfer addysg ôl-16 neu hyfforddiant;
- Sefydlu a diddymu sefydliadau sy'n ymwneud â darparu addysg bellach;
- Rhedeg a swyddogaethau'r cyfryw sefydliadau (gan gynnwys eiddo, hawliau, rhwymedigaethau, llywodraethiant a staff);

- Sicrhau cydlafurio rhwng cyrff sy'n addysg bellach neu chyrff ac iddynt swyddogaethau sy'n ymwneud ag addysg neu hyfforddiant;
- Adnoddau ariannol ar gyfer ac mewn cysylltiad ag addysg a hyfforddiant;
- Arolygu ysgolion a sefydliadau addysgol sy'n ymwneud â dapraru addysg bellach; a
- Chyngor a gwybodaeth mewn cysylltiad ag addysg neu hyfforddiant cyn-16, addysg neu hyfforddiant ôl-16 a hyfforddi athrawon a chynorthwywyr addysgu arbenigol.

Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007

- **Fe'i cyflwynwyd ar:**
13 Rhagfyr 2006
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
30 Hydref 2007
- **Materion a fewnosodwyd:**
12.1, 12.2, 12.3, 12.4, a 12.5 (Llywodraeth Leol)
- **Mesurau Cynulliad sy'n seiliedig ar o leiaf un o'r Materion hyn:**

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

Mesur Meysydd Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010

Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)

(ynghyd â'r pwerau deddfu a drosglwyddwyd gan *Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaetho) (Llywodraeth Leol) 2010*)

Mae'r Materion a gynhwysir yn y Ddeddf hon yn darparu pwerau deddfu i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â:

- Cyfansoddiad prif ardaloedd cyngor newydd a diddymiad neu addasiad prif gynghorau sydd eisoes yn bodoli
- Gweithdrefnau ar gyfer gwneud is-ddeddfau a'u dwyn i rym a gorfodi is-ddeddfau;

- Egwyddorion sydd i lywodraethu ymddygiad awdurdodau perthnasol, codau ymddyguad ar gyfer y cyfryw aelodau, rhoi swyddogaethau i unrhyw berson sy'n ymwneud â hybu neu gynnal safonau uchel o ymddygiad, gwneud neu drin honiadau, ymchwilio i'r cyfryw honiadau a dyfarnu arnynt, y camau y caniateir eu cymryd pan geir bod toriadau wedi digwydd, a chodau ymddygiad ar gyfer cyflogeion awdurdodau perthnasol.
- Strategaethau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistrefi sirol i hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardaloedd neu gyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy yn y Deyrnas Unedig; a
- Gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant yn y ffordd y mae eu swyddogaethau yn cael eu harfer, gwneud trefniadau ar gyfer cynnwys, wrth iddynt arfer eu swyddogaethau, bobl sy'n debygol o gael eu heffeithio gan yr arferiad o swyddogaethau neu sy'n debygol o fod â buddiant ynddynt, ac asesu ac arolygu perfformiad awdurdodau Cymreig perthnasol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau.

Deddf Addysg a Sgiliau 2008

- **Fe'i cyflwynwyd ar:**
28 Tachwedd 2007
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
26 Tachwedd 2008
- **Materion a fewnosodwyd:**
5.4A (Addysg a Hyfforddiant)
- **Mesurau Cynulliad a wnaed o dan y Mater hwn:**
Dim

Mae'r Materion a gynhwysir yn y Ddeddf hon yn trosglwyddo pwerau deddfu i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â rheoleiddio ysgolion nas cynhelir gan awdurdodau addysg lleol a sefydliadau addysgol annibynnol.

Deddf Trafnidiaeth Leol 2008

- **Fe'i cyflwynwyd ar:**
7 Tachwedd 2007
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
26 Tachwedd 2008
- **Materion a fewnosodwyd:**
10.1 (Priffyrdd a Thrafnidiaeth)
- **Mesurau Cynulliad a wnaed o dan y Mater hwn:**
Dim

Mae'r Materion a gynhwysir yn y Ddeddf hon yn trosglwyddo pwerau deddfu i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â:

- Gwneud, gweithredu a gorfodi cynlluniau i godi taliadau mewn perthynas â defnyddio neu gadw cerbydau modur ar gefnffyrdd Cymru; a
- Defnyddio'r arenillion o daliadau a godir o dan gynlluniau o'r fath tuag at ddibenion sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth.

Deddf Cynllunio 2008

- **Fe'i cyflwynwyd ar:**
27 Tachwedd 2007
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
26 Tachwedd 2008
- **Materion a fewnosodwyd:**
18.1, 18.2, a 18.3 (Cynllunio Gwlad a Thref)
- **Mesurau Cynulliad sy'n seiliedig ar o leiaf un o'r Materion hyn:**
Dim

Mae'r Materion a gynhwysir yn y Ddeddf hon yn trosglwyddo pwerau deddfu i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â:

- Cynlluniau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â datblygu a defnyddio tir yng Nghymru, gan gynnwys y pŵer i ddileu gofynion bod rhaid cael cynlluniau o'r fath;
- Adolygiadau gan yr awdurdodau cynllunio lleol ar faterion y gellir disgwyl iddynt effeithio ar ddatblygu ardaloedd yr awdurdodau, neu ar gynllunio datblygu ardaloedd yr awdurdodau; a
- Chynlluniau'r awdurdodau cynllunio lleol mewn perthynas â datblygu a defnyddio tir yn eu hardaloedd, gan gynnwys y pŵer i ddileu gofynion bod rhaid cael cynlluniau o'r fath.

Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009

- **Fe'i cyflwynwyd ar:**
4 Rhagfyr 2008
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
12 Tachwedd 2009
- **Materion a fewnosodwyd:**
12.6 a 12.7 (Llywodraeth Leol)
- **Mesurau Cynulliad sy'n seiliedig ar o leiaf un o'r Materion hyn:**
Dim

Mae'r Materion a gynhwysir yn y Ddeddf hon yn trosglwyddo pwerau deddfu i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â:

- Trefniadau gan brif gynghorau mewn perthynas â chyflawni eu swyddogaethau, gan gynnwys trefniadau gweithredol; a
- Pwyllgorau o brif gynghorau sydd â swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag adolygu neu graffu, neu wneud adroddiadau neu argymhellion.

Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009

- **Fe'i cyflwynwyd ar:**
4 Rhagfyr 2008
- **Cafodd Gydsyniad Brehinol ar:**
12 Tachwedd 2009
- **Materion a fewnosodwyd:**
16.2 a 16.3 (Chwaraeon a Hamdden)
- **Mesurau Cynulliad sy'n seiliedig ar o leiaf un o'r Materion hyn:**
Dim

Mae'r Materion a gynhwysir yn y Ddeddf hon yn trosglwyddo pwerau deddfu i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â:

- Sefydlu a chynnal llwybr (neu nifer o lwybrau) ar gyfer yr arfordir, er mwyn galluogi'r cyhoedd i wneud teithiau hamdden;
- Creu priffyrdd newydd (pa un ai o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 neu rywfodd arall); a
- Sicrhau mynediad y cyhoedd i dir perthnasol at ddibenion hamdden awyr agored.

Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth am ddeddfwriaeth y Cynulliad a materion cyfansoddiadol, cysylltwch ag:

Owain Roberts (owain.roberts@cymru.gov.uk)

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

I gael rhagor o wybodaeth am y pynciau a restrir isod, cliciwch ar y lincs

- **Crynodeb o Fesurau'r Cynulliad a basiwyd ers 2007**
- **Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol**
- **Mesurau'r Cynulliad**
- **Is-ddeddfwriaeth**
- **Y Cyfansoddiad – Geirfa**